

## CUDLIPP, PERCY (1905 - 1962), newyddiadurwr

**Enw:** Percy Cudlipp  
**Dyddiad geni:** 1905  
**Dyddiad marw:** 1962  
**Priod:** Gwendoline May Cudlipp (née James)  
**Rhiant:** Bessie Cudlipp  
**Rhiant:** William Cudlipp  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** newyddiadurwr  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** David Glanville Rosser

Ganwyd 1905, yn fab i William Cudlipp, trafeliwr masnachol adnabyddus iawn yn ne Cymru, a Bessie ei wraig, Lisvane Street, Caerdydd. Yr oedd yn un o dri brawd enwog ym myd newyddiaduraeth (Reginald, golygydd *News of the World*, 1953-59; a Hugh, golygydd *Sunday Pictorial*, 1937-40 ac 1946-49, a chadeirydd Odhams Press, 1960). Addysgwyd Percy, a'i frodyr hefyd, yn Ysgol Gladstone ac Ysgol Uwchradd Howard Gardens, Caerdydd. Dechreuodd weithio gyda'r *South Wales Echo* fel negesydd a copy boy pan oedd yn 14 mlwydd oed, gan ddod yn ohebydd ymhen dwy fl. Wedi hynny gweithiodd ym Manceinion ar yr *Evening Chronicle*. Dyma'r adeg y cyfrannodd erthyglau a rhigymau i bapurau Llundain y cymerwyd llawer o sylw ohonynt yn Stryd y Ffl d. Bu'n newyddiadurwr dros gyfnod o 34 mlynedd, a gadawodd ei ôl ar newyddiaduraeth yn ei benodiad cyntaf fel golygydd trwy feithrin gohebwy arbenigol mewn maes newyddion estynedig ac iddo gynnwys arbenigol, fformat a fabwysiadwyd gan y mwyafrif o'r papurau cenedlaethol a rhanbarthol. Bu'n feirniad y ddrama a cholofnydd digrifol i'r *Sunday News*, Llundain, 1925-29, ac yn ysgrifwr arbennig a beirniad ffilmiau i'r *Evening Standard*, Llundain, 1929-31. Dyrchafwyd ef yn olygydd cynorthwyol yn 1931 ac yn olygydd yn 1933. Dechreuodd ar ei waith gyda'r papurau dyddiol cenedlaethol Prydeinig pan benodwyd ef yn rheolwr golygyddol y *Daily Herald* yn 1938, ac yna'n olygydd, 1940-53 (gan olynu Francis Williams a ddaeth yn ysgrifennydd y wasg i'r Prif Weinidog, Clement Attlee, yn Downing Street yn 1946). Cyfyngid arno fel golygydd mewn modd a oedd yn groes i'w ewyllys ac a wrthwynebai, ond yr oedd y papur, a oedd bryd hynny'n enau i Sosialwyr y chwith, dan reidrwydd yn gyffredinol i bleidio polisïau a gymeradwyd gan Gyngres yr Undebau Llafur a'r Blaid Lafur. O dan y fath bwysau symudodd i fod yn golofnydd i'r *News Chronicle* Rhyddfrydol, 1954-56 ac eto yn 1956 i fod yn olygydd *New Scientist* o'i gychwyniad. Adnabyddid ef yn Stryd y Ffl d, calon newyddiaduraeth Prydain, fel ysgrifennwr cywir ac ymgomiwr ffraeth a ddnwardai enwogion yn reddf, yr hyn a werthfawrogid yn fawr. Darlledai'n fynych ar y radio a theledu ac adlewyrchid ei hoffter o farddoniaeth o'i febyd yn ei gyfrol, *Bouverie ballads* (1955). Priododd, 1927, â Gwendoline James a bu iddynt un mab. Bu farw 5 Tachwedd 1962.

### Awdur

David Glanville Rosser, (1915 - 2001)

### Ffynonellau

*Who was who?*

*The Times*, 6 Tachwedd 1962

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Percy Cudlipp](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7167294](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

